# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Glanmorfa Supported Living**

**52-54 Heol yr Orsaf**
**Cydweli**
**SA17 4UR**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**This report is also available in English**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

15 Tachwedd 2021

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2021.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth.Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Glanmorfa Supported Living

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cymorth cartref |
| Darparwr cofrestredig | Glanmorfa Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 0 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg? | Mae hwn yn wasanaeth sy'n gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol'. |

## Crynodeb

At ei gilydd, mae Glanmorfa Supported Living yn ymdrechu i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a byw eu bywydau fel y maent yn ei ddewis. Mae'r cymorth y mae'r bobl yn ei dderbyn yn canolbwyntio ar eu hanghenion ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant: maent yn dweud eu bod yn gwneud y pethau sydd yn bwysig iddynt. Mae tîm o staff brwdfrydig eisiau gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl. Mae gweithwyr gofal yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan uwch aelodau o staff. Mae pob un gweithiwr yn mynychu sesiynau hyfforddiant rheolaidd sy'n berthnasol i'w rolau ac yn dweud ei fod yn eu helpu i gefnogi pobl yn briodol. Mae sianeli cyfathrebu da yn amlwg ar draws y gwasanaeth ac mae systemau cadarn ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae hyn yn sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd sydd angen eu gwella.

## Llesiant

Mae pobl yn fwy na bodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei dderbyn yn Glanmorfa Supported Living: maent yn teimlo'n rhydd i siarad dros eu hunain neu fod rhywun ganddynt sy'n gallu siarad ar eu rhan. Mae cynlluniau personol yn adlewyrchu anghenion cymorth, diddordebau a nodau bywyd pob unigolyn. Dywed pobl y caiff eu safbwyntiau eu hystyried wrth drefnu'r pethau i wneud bob wythnos. Dywedodd un unigolyn wrthym mewn manylder am yr holl ymweliadau a gynlluniwyd ar gyfer y chwe mis nesaf. Gan fod cyfyngiadau wedi bod ar weithgareddau ac ymweliadau allan yn ystod y pandemig, mae gweithwyr gofal wedi addasu i ddiwallu canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda llawer o weithgareddau dan do ac unigol wedi'u trefnu yn lle. Golyga hyn fod pobl yn gallu bod mor brysur ag y maent yn ei ddymuno. Mae gweithwyr gofal yn ymwybodol o bwysigrwydd llesiant pob unigolyn. Maent yn gwrando ar sylwadau pobl ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bob unigolyn y maent yn ei gefnogi. Maent yn gyfeillgar, yn dangos parch ac yn broffesiynol yn eu hymagwedd. Fodd bynnag, er bod y gweithwyr gofal yn siarad yn gyson â phobl a/neu eu cynrychiolwyr i adolygu unrhyw newidiadau i'w hanghenion gofal a chymorth, nid ydynt bob amser yn cadw cofnod o'r trafodaethau hyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn cytuno bod angen iddynt ddangos tystiolaeth bod hyn yn digwydd, ac mae'n bwriadu newid y ffordd mae'r prosesau hyn yn cael eu dogfennu. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella a disgwyliwn i'r darparwr gymryd camau.

Mae pobl yn ddiogel ac mae eu preifatrwydd a'u gwybodaeth bersonol yn cael eu diogelu'n dda bob amser. Dywed pob unigolyn ei fod yn teimlo'n ddiogel gyda'i weithwyr gofal. Yn ogystal â hyn, mae gweithwyr gofal yn gyfarwydd i bobl. Mae hyn yn rhoi hyder i bob unigolyn bod eu hanghenion a'u hoffterau personol yn cael eu deall. Mae pobl yn ymwybodol o ganllaw ysgrifenedig y gwasanaeth. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r hyn y gall bob unigolyn ei ddisgwyl o'r gwasanaeth ynghyd â manylion y broses gwyno pe bai angen iddynt ei defnyddio. Dywed pobl eu bod yn gwybod sut i wneud cwyn a'u bod yn hyderus y byddai'r rheolwr yn gwrando arnynt pe byddent yn gwneud hynny.

Mae'r darparwr yn gweithio tuag at Gynnig Rhagweithiol y Gymraeg: mae hyn yn golygu bod yn rhagweithiol wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg heb i bobl orfod gofyn amdano. Mae rhai pobl yn siarad Cymraeg ac mae rhai aelodau o staff yn siarad Cymraeg. Bwriad yr unigolyn cyfrifol yw sicrhau bod canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg.

## Gofal a Chymorth

At ei gilydd, ceir cynllun manwl gywir sydd wedi'i ddiweddaru ar gyfer sut y dylai gweithwyr gofal ddarparu cymorth i bobl er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl. Mae'r darparwr yn ystyried ystod o wybodaeth i sicrhau y gall ddiwallu anghenion pobl cyn iddynt ddechrau eu tenantiaethau. Mae hyn yn cynnwys cael gwybodaeth gan berthnasau a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol, fel gweithwyr cymdeithasol. O hyn, mae uwch aelodau o staff yn datblygu cofnodion gofal sy'n disgrifio trefniadau a gofynion cymorth pobl. Mae'n amlwg y gall pobl ddilyn eu harferion eu hunain fel y dymunant a'u bod yn dweud bod y tîm staff yn eu cefnogi'n dda, fel y disgrifir yn eu cynlluniau gofal. Mae tystiolaeth hefyd o ddull amlasiantaethol – gwelsom ganllawiau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol allanol fel ffisiotherapyddion a therapyddion galwedigaethol. Er mwyn aros yn gyfredol, adolygir yr holl gofnodion gofal bob tri mis neu'n amlach lle bynnag y mae'r anghenion cymorth yn newid. Golyga hyn y gall pobl ddisgwyl derbyn y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

Mae gan y darparwr bolisïau a gweithdrefnau manwl i reoli'r risg o haint. Mae arferion hylendid da trwy'r adeiladau a gall gweithwyr gofal gyfeirio at bolisïau rheoli heintiau pryd bynnag y bo angen. Mae'r holl fesurau'n cael eu defnyddio'n gyson i sicrhau bod pobl yn ddiogel rhag heintiau COVID-19, gan gynnwys monitro a phrofi pob ymwelydd a defnyddio cyfarpar diogelu personol gan yr holl weithwyr gofal yn rheolaidd. Mae hefyd cyfathrebu da yn y tîm ac mae uwch aelodau o staff yn gwneud atgyfeiriadau prydlon at weithwyr gofal iechyd proffesiynol pan fo angen.

Cyn belled ag y bo modd, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau priodol i amddiffyn pobl rhag esgeulustod a chamdriniaeth. Mae'r risgiau i iechyd a llesiant pobl yn cael eu nodi'n glir a'u lleihau er mwyn i bobl allu fod mor annibynnol â phosibl. Mae gweithwyr gofal yn cydnabod eu cyfrifoldebau personol wrth gadw pobl yn ddiogel. Maent yn ymwybodol o'r weithdrefn chwythu'r chwiban ac yn hyderus i'w defnyddio os bydd angen gwneud hynny. Maent yn dweud y byddant yn mynd at uwch aelodau o staff yn y lle cyntaf ond y byddant yn hyderus i fynd at asiantaethau allanol, megis y tîm diogelu, pe byddant yn meddwl bod angen gwneud hynny. Mae’r cofnodion hyfforddiant i weithwyr yn dangos bod hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i ddatblygu diwylliant sy'n sicrhau y caiff canlyniadau gorau posibl eu cyflawni ar gyfer pobl. Mae systemau clir ar waith sydd wedi'u cynllunio i fonitro llesiant pobl a safon y cymorth mae pob unigolyn yn ei dderbyn. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r safle fel rhan o'i gyfrifoldebau i wirio ansawdd cyffredinol y cymorth a ddarperir ac i ofyn iddynt wneud unrhyw welliannau. Mae cofnodion o'r ymweliadau hyn yn dangos amrywiaeth o drafodaethau gyda phobl a'r tîm o staff. Cynhelir archwiliadau yn rheolaidd gan uwch aelodau o staff ynghylch pob agwedd ar y cymorth ar roddir i bobl. Mae pobl yn cwblhau arolygon o foddhad bob blwyddyn, a gwnaethom nodi nifer o sylwadau canmoliaethus gan bobl a'u perthnasau. Cynhelir cyfarfodydd staff rheolaidd er mwyn rhoi cyfle i'r holl weithwyr drafod eu gwaith a chael y wybodaeth ddiweddaraf am yr holl ddatblygiadau newydd. Ceir cofnodion goruchwylio gweithwyr bob tri mis ac arfarniadau blynyddol sy’n dangos bod yr holl weithwyr gofal yn cael cyfle yn rheolaidd i drafod unrhyw faterion yr hoffent eu codi mewn lleoliad ffurfiol ac i'w sgyrsiau cael eu cofnodi. Mae'r unigolyn cyfrifol yn coladu'r holl ganfyddiadau o'r arolygon, adroddiadau am ddigwyddiadau, archwiliadau a chwynion mewn adroddiad ansawdd gofal bob chwe mis gyda'r holl ddatblygiadau sydd eu hangen.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod digon o weithwyr gofal gwybodus a medrus i ddarparu'r cymorth cywir i bobl. Mae gwiriadau cyn cyflogi yn digwydd cyn i weithwyr newydd ddechrau gweithio – mae'r rhain yn cynnwys gwiriadau geirdaon, gwiriad ffotograff, a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae’r rhaglen sefydlu staff yn cysylltu â ‘Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol’. Mae’r gweithwyr gofal yn ymgymryd â hyfforddiant penodol sy’n berthnasol i’r bobl maent yn eu cefnogi. Mae cofnodion hyfforddiant y gweithwyr yn dangos bod yr holl weithwyr gofal wedi derbyn hyfforddiant hanfodol diweddar. Mae hyn yn galluogi gweithwyr gofal i fodloni gofynion eu rolau a diwallu anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi.